Llwybr Datblygu'r Gymraeg

2020-21



Tiwtor :

Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

Darlith 11

Dydd Mawrth 24ain o Dachwedd 2020

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
Canolfan Gwasanaethau Cymraeg

Sillafu a geiriau tebyg

Nod y ddarlith:



- adnabod geiriau tebyg yn y Gymraeg a'u defnyddio yn y cyd-destun cywir

- edrych ar reolau sillafu a gwallau cyffredin

- sillafu a'r cwricwlwm

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Geiriau Tebyg

- Yn y Gymraeg mae'n rhaid i ni fod yn ofalus oherwydd mae gyda ni nifer fawr o eiriau sy'n debyg. Mae'n hawdd drysu rhyngddynt.

- Allwch chi feddwl am rai?

- Beth sy'n gallu newid ystyr gair?



- Yn aml iawn mae **aceniad** neu **sillafiad** gair yn gallu newid ystyr gair yn llwyr, felly mae'n rhaid i ni fod yn ofalus wrth ysgrifennu yn y Gymraeg.

e.e. Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng y geiriau hyn...?

rhaglenni	rhaglennu
poblogaeth	poblogaidd




Dyma rai geiriau tebyg yn y Gymraeg...



a ac	cau cae	glan glân	nith nyth	tal tâl
ac ag	Cymraeg Cymreig	hun hyn hŷn	pa pwy	tan tân
ar a'r â'r	Cymru Cymry	i'w yw	prif pryf	ti tŷ
a â	ei eu	melin melyn	prydau prydiau	ton tôn
adnabod gwybod	ffôn ffon	mor môr	sir sur	tonnau tonau
bai bae	gem gêm	nac nag	sudd sydd	


Geiriau Tebyg – nodiadau pellach



1. a ac	1. and (+ cytseiniaid) and (+ llafariaid)
2. ac ag	2. and (+ vowel) before a vowel
3. ar a'r â'r	3. on and the with the
4. a â	4. and (+ cytseiniaid) with (+ cytseiniaid)
5. adnabod gwybod	5. to know someone to know something
6. bai bae	6. the blame bay
7. cau cae	7. to shut field
8. Cymraeg Cymreig	8. Yr iaith diwylliant
9. Cymru Cymry	9. y wlad y bobl


10. ei eu	10. unigol - his/her lluosog - their
11. ffôn ffon	11. phone walking stick
12. gem gêm	12. gem/jewel game
13. glan glân	13. on the bank clean
14. hun hyn hŷn	14. own/self this older
15. i'w yw	15. to his/to her/to their is
16. melin melyn	16. mill yellow
17. mor môr	17. so sea
18. nac nag	18. negyddol (+ llafariaid) than (+ vowel)

Geiriau Tebyg – nodiadau pellach



19. nith nyth	19. niece nest
20. pa pwy	20. which who
21. prif pryf	21. main / head a fly
22. prydau prydiau	22. meals at times
23. sir sur	23. county sour
24. sudd sydd	24. juice that is
25. tal tâl	25. tall payment
26. tan tân	26. until fire
27. ti tŷ	27. you (unigol) house
28. ton tôn	28. wave tone
29. tonnau tonau	29. waves tones

a / ac = *and*






a = o flaen cytsain (yn achosi treiglad llaes)

e.e ci a chath
mab a thad

ac = o flaen llafariaid

afal ac oren
prifysgol ac ysgol





â / ag = gyda

â - o flaen cytsain **(yn achosi treiglad llaes)**

e.e. Mynd â phapur i'r swyddfa

ag - o flaen llafariad **(dim treiglad)**

e.e. Dod ag offer i'r wers.

a = rhagenw perthynol

a – (that / which / who yn Saesneg)

(yn achosi **treiglad meddal**)



- Dyma'r ferch a welais ddoe
- Dyma'r disgybl a oedd yn ddrwg
- Doedd dim o'r hyn a ddywedodd yn wir



- Hepgor yr 'a' – cadw'r treiglad!

na / nac = negyddol

- Na+ cytsain (treiglad llaes)
- Doedd dim merch na bachgen yn bresennol
- Nac + llafariad
- Welais i ddim afal nac oren (neither/nor)

- Gorchymyn: Na phoener!!



na / nag = than

na - o flaen cystain

(yn achosi **treiglad llaes**)

e.e. Mae ffrwythau yn well na chacennau.



nag - o flaen llafariad

(dim treiglad)

e.e. Mae oren yn fwy blasus nag afal.

nid / nad



'**nid'** ar ddechrau brawddeg negyddol
e.e. **Nid** oedd y plant wedi gwneud eu gwaith cartref.

Mae **NID** yn troi'n **NAD** yng nghanol brawddeg, hynny yw, pan fo'n dod ar ôl gair neu gymal arall,
e.e.
Rydw i'n gwybod **nad** yw'r plant yn y dosbarth.

Rydyn ni hefyd yn defnyddio **nad** os ydyn ni am ddweud mai (taw) + nid
a gyda berfau bod + nid.

e.e. Rydw i'n gwybod *mai nid* Tomos oedd yno. > Rydw i'n gwybod **nad** Tomos oedd yno.
Ydych chi'n siŵr *bod chi ddim* yn hoffi coffi? > Ydych chi'n siŵr **nad** ydych chi'n hoffi coffi?

hun / hyn / hŷn

Ystyr 'hun' yw 'self' yn Saesneg:

e.e. Aeth i'r ffair ar ei ben ei hun.

Ystyr 'hŷn' yw 'older' yn Saesneg:

e.e. Mae'n fachgen mawr ac yn edrych yn hŷn na'i oed.

Ystyr 'hyn' yw 'these' neu 'this' yn Saesneg:

e.e. Mae'r llyfrau hyn yn ddiddorol.

Mae hyn yn annerbyniol!

Gwyliwch y fideo : https://www.youtube.com/watch?v=dzwuo6CVfBY

mae / mai



‘**Mae**’ yw trydydd person unigol presennol y ferf ‘bod’.
e.e. **Mae** y llyfr ar y bwrdd.

‘**Mai**’ (taw) yn cael ei ddefnyddio i bwysleisio. Os gallwch chi ddefnyddio ‘that’ yn Saesneg yn yr un lle yna ‘mai’ sydd yn gywir.
e.e. Roedd hi’n gwybod **mai** fi oedd yn gywir.

Sillafu



SILLAFU

Strategaethau sillafu

Mae nifer o dechnegau y gall dysgwyr eu defnyddio i ddarllen a sillafu'n gywir. Maent yn cynnwys y canlynol.

- **Gwybodaeth graffig** – cyfresi o lythrennau sy'n digwydd yn aml, *e.e. cae/mae, mwy/llwy.*
- **Gwreiddiau** – ffurf sylfaenol gair y mae geiriau eraill yn deillio ohoni (h.y. **tarddiad gair**), *e.e. coll, colled, colli.*
- **Segmentu** – rhannu gair yn elfennau, *e.e. plan-hig-ion*.
- **Morffoleg** – strwythur gair lle mae gan rannau o air ystyr, *e.e. rhagddodiaid (lle mae 'rhag' yn golygu o flaen, e.e. aneglur), ôl-ddodiaid (ychwanegir ar ddiwedd gair i newid yr ystyr, e.e. 'darlun' i 'darlunio' neu 'cerdded' i 'cerddediad').*
- **Teuluoedd o eiriau** – grwpiau o eiriau sydd â nodwedd neu batrwm cyffredin; mae ganddynt rai o'r un cyfuniadau o lythrennau ynddynt a sŵn tebyg, *e.e. cae, chwaer, chwarae.*

Strategaethau Sillafu



Cam	Beth?	Pam?
Cam 1	Ysgrifennu'r gair allan dair gwaith - ond cofia gopïo'r gair yn gywir bob tro.	Mae hyn yn sicrhau bod y gair yn aros yn y cof.
Cam 2	Dweud y gair yn uchel fesul sillaf, a nodi sawl sillaf sydd yn y gair.	Trwy dorri'r gair yn ddarnau llai, mae'n haws i'w gofio.
Cam 3	Tynnu llun o batrwm y gair.	Bydd siâp arbennig y gair yn dy atgoffa di o'r gair wrth i ti ei ysgrifennu.
Cam 4	Meddwl am beth mae sŵn rhan o'r gair yn dy atgoffa.	Mae gwneud cysylltiadau gweledol yn dy feddwl di yn dy helpu i sillafu'n gywir.
Cam 5	Ysgrifennu'r gair o dy gof.	Mae hyn yn profi'r strategaeth ac yn sicrhau dy fod yn sillafu'n gywir.

- https://www.bbc.co.uk/bitesize/articles/z37q4xs


Pa strategaethau ydych chi'n eu defnyddio?





Pa wallau sillafu ydych chi wedi dod ar eu traws yn yr ysgol?





Pa wallau sillafu ydych chi wedi dod ar eu traws yn yr ysgol?

mae nhw X

gwilio X

Rhydw i X

i fynny X

mynnydd X

Ffraneg X

cyffroes X

frind X

run X

Disgwyliadau'r Cwricwlwm



Cam cynnydd 1

Ysgrifennu'n gywir	**Iaith** **Llawysgrifen** **Cystrawen** **Atalnodi** **Sillafu**	• codi gwrthrychau bach gyda'u bys a'u bawd a dechrau dal offer ysgrifennu'n gywir • dangos dealltwriaeth bod print ysgrifenedig yn mynd o'r chwith i'r dde • adnabod synau llythrennau drwy ymchwilio a chyffwrdd siapiau'r llythrennau o fewn gweithgareddau chwarae aml-synhwyraidd.	• dal offer ysgrifennu mewn modd priodol • ysgrifennu o'r chwith i'r dde • gwahaniaethu rhwng llythrennau • gwahaniaethu rhwng priflythrennau a llythrennau bach • dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau'n newid ar ddechrau geiriau, *e.e. dau gi, y gath* • defnyddio'r gytsain gychwynnol gywir drwy ddechrau defnyddio gwybodaeth ffonig • defnyddio geiriau cyfarwydd ac aml eu defnydd wrth ysgrifennu.

Cam cynnydd 2

Ysgrifennu'n gywir	**Iaith**	• defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu hysgrifennu	• deall a defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu • defnyddio geiriau syml sy'n perthyn i'r pwnc mewn modd priodol	• defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol • defnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â'r pwnc neu â chyd-destun y pwnc
	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	• creu priflythrennau a llythrennau bach sydd fel arfer yn eglur eu siâp ac yn wynebu'r ffordd gywir • defnyddio priflythyren ac atalnod llawn yn weddol gyson • dechrau defnyddio cysyllteiriau er mwyn ymhelaethu ar bwynt • dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau'n newid ar ddechrau geiriau, *e.e. y ferch* • sillafu rhai geiriau mewn modd confensiynol gan gynnwys geiriau cytsain-llafariad-cytsain, a llythrennau dwbl, *e.e. rh, ff* • defnyddio strategaethau sillafu megis sŵn-symbol sy'n cyfuno a segmentu • sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir.	• ffurfio priflythrennau a llythrennau bach yn gywir ac yn gyson o ran eu maint • defnyddio priflythyren, atalnod llawn a gofynnod yn gywir, a defnyddio ebychnod weithiau • defnyddio cysyllteiriau i ysgrifennu brawddegau cyfansawdd • defnyddio geiriau trefnu, *e.e. yn gyntaf, yna, wedyn, i gloi* • defnyddio ffurfiau safonol berfau, *e.e. gweld/gwelais, mynd/aeth*, a chytundeb berf a goddrych, *e.e. roeddwn i/roedden ni* • defnyddio ambell dreiglad y maent wedi ei ymarfer ar lafar, *e.e. y bêl, fy mag, i'r dref* • defnyddio strategaethau sillafu fel rhannu'n sillafau, gwreiddiau syml ac ôl-ddodiaid, *e.e. -ŵr, -ydd, -og* • sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir • sillafu rhai geiriau yn cynnwys ŷ/u/i, *e.e. tŷ, llun,* a llafariaid clwm, *e.e. coed.*	• cychwyn brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd • defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml • defnyddio amrywiaeth o gysyllteiriau sy'n cyfleu achos a chanlyniad, *e.e. oherwydd, ar ôl* • defnyddio ffurfiau safonol berfau'n berthnasol i gyd-destun • defnyddio ffurfiau gorffennol y ferf yn gyson, *e.e. cytsain yn dyblu (e.e. gofyn – gofynnodd)* • defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin fel arfer yn gywir, *e.e. ar ben* • defnyddio atalnod llawn, gofynnod, ebychnod ac atalnod ar gyfer rhestri • defnyddio strategaethau gan gynnwys gwybodaeth am deuluoedd geiriau, gwreiddiau, morffoleg a gwybodaeth graffig i sillafu geiriau, *e.e. y geiriau amlsillafog mwyaf cyffredin* • sillafu ffurfiau lluosog yn gywir mewn cyd-destun, *e.e. -au, -ion* • sillafu pob gair aml ei ddefnydd yn gywir • cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy a chyflwyno'u gwaith mewn modd priodol gan gyfuno llythrennau mewn ambell air.

https://hwb.gov.wales/api/storage/56e6da62-73d8-4233-aedb-ba8fd7494c10/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-taenlen-llythrennedd-ysgrifennu-ar-draws-y-cwricwlwm-cwricwlwm-2022.pdf

Sillafu

Pa lythrennau sy'n dyblu?

n



r

DYMA'R **UNIG** LYTHRENNAU SY'N DYBLU YN Y GYMRAEG

Pa eiriau sy'n **anghywir**?





cylchgronnau
pennod
pennodau
rhaglenni
taenlenni
llwyddianus
cannoedd
ysgrifennu
ysgrifennyddes
penderfynnu
peiriannu



Pa eiriau sy'n anghywir? **(Atebion)**



cylchgronnau
pennod
pennodau
rhaglenni
taenlenni
llwyddianus
cannoedd
ysgrifennu
ysgrifennyddes
penderfynnu
peiriannu

cylchgronau
pennod
penodau
rhaglenni
taenlenni
llwyddiannus
cannoedd
ysgrifennu
ysgrifenyddes
penderfynu
peiriannu



Dewiswch y ffurfiau cywir …



1. Mae’r diwydiant yn wynebu nifer o …… (doriadau/dorriadau).

2. Mae’n rhaid i chi …….’r penderfyniad. (gwestiynnu/gwestiynu)

3. Mae’r sefyllfa yn …….. (anheg/annheg).

4. Wyt ti wedi dod o hyd i’r ……? (cyfrifiaduron/cyfrifiadurron)

Dewiswch y ffurfiau cywir – ATEBION





1. Mae'r diwydiant yn wynebu nifer o …… (**doriadau**/dorriadau)

2. Mae'n rhaid i chi ……'r penderfyniad (gwestiynnu/**gwestiynu**)

3. Mae'r sefyllfa yn …….. (anheg/**annheg**)

4. Wyt ti wedi dod o hyd i'r ……? (**cyfrifiaduron**/cyfrifiadurron)

Rheol 1

‘nn’ ac ‘rr’ mewn geiriau unsill.

Un rheswm yn unig > osgoi amwysedd:

yn	**ynn**
dyn	**dynn**
myr	**myrr**
yr	**yrr**



Rheol 2


Y GOBEN (y sillaf olaf ond un mewn gair) - GWAHANIAETHU

‘n’	‘nn’	‘r’	‘rr’
canu	cannu	tori	torri
cynydd	cynnydd	tyrau	tyrrau
gwanaf	gwannaf		
gynau	gynnau		
tanau	tannau		
tonau	tonnau		

Rheol 2

Os yw llafariad gair unsill sy'n gorffen gyda 'n' neu 'r' yn **FYR**, bydd dwy 'n' neu 'r' yn y goben:

pen	→	pennau
rhan	→	rhannau
tor	→	torri
twr	→	tyrru



Rheol 2

Mae **“n”** yn dyblu ar ôl **an**



an + t = annh	an + tebyg = a**nn**hebyg
an + d = ann	an + dymunol = a**nn**ymunol
an + n = ann	an + naturiol = a**nn**aturiol



Ond…

- **an + tr = anhr**
- e.e. an + trefn = a**nhr**efn

Rheol 4- *Anti Ann*



Mae'r **"n"** yn dyblu wrth ychwanegu sillaf at eiriau sy'n gorffen gyda **–nt:**

llwyddiant	→	llwyddia**nn**au;
peiriant	→	peiria**nn**au;
diwylliant	→	diwyllia**nn**ol
dant	→	dannedd
cant	→	cannoedd
tant	→	tannau
methiant	→	methiannau
punt	→	punnoedd

Rheol 5

Mae'r "**n**" yn dyblu os ydym yn ychwanegu sillaf at air sy'n gorffen gyda **-en** neu **-yn**:

llythyren	→	llythre**nn**au
llyfryn	→	llyfry**nn**au
dogfen	→	dogfe**nn**au
offeryn	→	offery**nn**au

*Mae '**emyn**', **gwenyn**' a '**telyn**' yn eithriadau.

Rheol 6

Nid yw “**n**” yn dyblu mewn geiriau sy’n gorffen gyda **–iwn, -ion** (benthyciadau o’r Saesneg) os ydym yn ychwanegu sillaf:

cwestiwn → cwestiy**n**au → cwestiy**n**u

ffasiwn → ffasiy**n**au → ffasiy**n**ol


fersiwn → fersiy**n**au



Rheol 7

Nid yw **“n”** yn dyblu o flaen y terfyniadau **-wyr, -ion, -iad**

diflannu	→	diflaniad
offerynnau	→	offerynwyr
gwynnu	→	gwynion
cwr	→	cyrion
gyrru	→	gyrwyr



Oeddet ti'n gwybod...?

os yw enw unigol yn gorffen gyda -nt, mae'r lluosog yn dyblu n

punt	punnoedd
cant	cannoedd
dant	dannedd
tant	tannau

Mwy o ddyblu n.
Mae rhoi an o flaen gair yn ei negyddu.
Mae an + gair yn dechrau gyda d yn dyblu'r n.

an + difyr	annifyr
an + diolchgar	anniolchgar
an + dibynnol	annibynnol
an + dymunol	annymunol
an + diddorol	anniddorol

Llythrennau'n caledu

-d, -g, -b

Mae'r llythrennau uchod yn caledu i -t-, -c-, -p- pan mae terfyniadau cymharol yn cael eu hychwanegu felly gwyliwch y sillafu:

Mae'r ansoddeiriau yma ychydig yn wahanol oherwydd dydy pob ansoddair ddim yn dilyn yr un patrwm.


byr	mor fyr â	yn fyrrach na	(y) byrraf (y) fyrraf
drud	mor ddrud â	yn ddrutach na	(y) drutaf (y) ddrutaf
hen	mor hen â	yn hŷn na /yn henach na	(yr) hynaf
ifanc	mor ifanc â	yn iau na / yn ifancach na	(yr) ieuengaf / (yr) ifancaf
rhad	mor rhad â	yn rhatach na	(y) rhataf
tenau	mor denau â	yn deneuach na	(y) teneuaf (y) deneuaf
trwm	mor drwm â	yn drymach na	(y) trymaf (y) drymaf

Camsillafu: i u y

i

u

y




Allwch chi feddwl am enghreifftiau?

‘i’ neu ‘u’??







‘o’ yng nghanol berfenw = ‘i’ ar y diwedd, e.e. colli, pori

‘a’ yng nghanol berfenw = ‘u’ ar y diwedd, e.e. canu, taranu

‘y’ neu ‘w’ yng nghanol berfenw = ‘u’ ar y diwedd, e.e. cysgu, chwyrnu

‘w’ yn agos at ddiwedd berfenw = ‘i’ yn ei dilyn, e.e. berwi, drewi

Gyda geiriau tebyg eu sain, mae berfenwau fel arfer yn gorffen gydag **u**, ac enwau lluosog yn gorffen gydag **i**, e.e. rhestru (*to list*), rhestri (lists)

Acen grom (Y to bach)



PRYD?

BLE?

- Mae to bach ar y llafariaid ‘a’, ‘e’, ‘o’, ‘w’, ‘y’ os ydyn nhw’n hir mewn gair unsill sy’n gorffen gyda ‘l’, ‘n’ neu ‘r’, e.e. sêr, pêl, sŵn

- Mae to bach mewn geiriau â mwy nag un sillaf os yw’r pwyslais ar y sillaf olaf, e.e. ar wahân.

- Mae to bach ar lafariad hir mewn gair unsill sy’n gorffen gyda’r cytseiniaid ‘p’, ‘t’, ‘c’, ‘m’, e.e. tîm, plât, grŵp.

- Does dim angen to bach mewn geiriau unsill sy’n gorffen gyda llafariad, e.e. to, te. OND , mae tŷ yn eithriad.


COFIWCH: Mae to ar y tŷ, ond does dim to ar y to!

Defnydd diangen o'r acen grom



Rhai enghreifftiau o doeau bach diangen mae Geraint Lovgreen wedi eu casglu

https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/38531175







Ymarfer –
Mae angen acen grom ar un gair ym mhob brawddeg




1. Mae hi wrth ei bodd yn mynd i lan y mor.
2. Aeth y pennaeth ynghyd a chadeirydd y cyngor i'r cyfarfod.
3. Roedd y ferch yn hoff iawn o don yr emyn ac enillodd y gystadleuaeth.
4. Wyt ti wedi clywed can newydd y grŵp o Gaernarfon.
5. Roedd yr olygfa yn wych o dwr hen adeilad y sir.

Ymarfer – Mae angen acen grom ar un gair ym mhob brawddeg ATEBION

1. Mae hi wrth ei bodd yn mynd i lan y **môr.**
2. Aeth y pennaeth ynghyd **â** chadeirydd y cyngor i'r cyfarfod.
3. Roedd y ferch yn hoff iawn o **dôn** yr emyn ac enillodd y gystadleuaeth.
4. Wyt ti wedi clywed **cân** newydd y grŵp o Gaernarfon.
5. Roedd yr olygfa yn wych o **dŵr** hen adeilad y sir.

Llyfr Defnyddiol




Awdur: J. Elwyn Hughes
ISBN: 9781859025710 Dyddiad
Cyhoeddi: 15 Tachwedd 2016
Cyhoeddwr: Gomer, Llandysul
£3.99

Syniadau













https://www.youtube.com/watch?v=LqhcES1aLBs&t=307s



Enghreifftiau o restrau sillfau
http://www.ygmg.com/sillafu-cymraeg/
https://www.ygglwynderw.co.uk/sillafu-spelling/







Wordwall

lsiocde

https://wordwall.net/resource/5226367/athrawon-datblygur-gymraeg/dewch-i-sillafu



Apiau


AUR
AM
AIR


abc
Ap Cyw a'r wyddor


2
Betsan a Roco yn y


Gêm
Anagramau
Iaith Gyntaf
Barod i chwarae?
ANAGRAM
ANAGRAM


Gêm
Sillafu
Iaith Gyntaf
Barod i chwarae?
SILLAFU
SILLAFU


Gêm
Sillafu
Ail Iaith
Barod i chwarae?
SILLAFU
SILLAFU


Campau
Cosmig


Brwydr
CROESEIRIAU


AP IAITH

Kahoot – erbyn y tro nesaf.



https://kahoot.it/challenge/04451631?challenge-id=1ca03dbd-0af3-44f0-95df-26dc1e2938e8_1606221906074

PIN: **04451631**